# Datganiad i'r Wasg
# Argraffiadau o Gymru
# Oriel Ynys Môn
# 14.01.17 – 05.03.17

Mae Oriel Ynys Môn yn falch iawn o lansio arddangosfa gyntaf 2017 gyda sioe grŵp ddeinamig fydd yn procio'r meddwl gan 8 artist enwog (Matthew Wood, Paul R Jones, Kate Corbett-Winder, Pete Davis, Peter Bishop, Hugh Sanders, Oliver Webster, Rhiannon Lowe) sydd oll â chysylltiad â Chymru.

Mae arddangosfa *Argraffiadau o Gymru* yn edrych ar thema hunaniaeth Gymreig ac arwyddocâd perthyn i'r dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog hon. Mae themâu megis y dirwedd, yr iaith, daeareg, diwydiant, pobl a'u cymunedau ymysg y pynciau sy'n cael eu trafod a'u herio yn yr arddangosfa hon.

Dywed y Cyngorydd Ken Hughes, "Bydd yr Oriel yn parhau i gyflwyno arddangosfeydd o'r radd flaenaf, gan ddechrau 2017 gyda'r arddangosfa ddiddorol hon am fywyd yng Nghymru heddiw ac yn y gorffennol"

Gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau mae thema Cymreictod yn cael ei harchwilio gan bob artist drwy ddulliau gwaith traddodiadol a newydd yn cynnwys paentio, darlunio, gosodiad, fideo a ffotograffiaeth.  Mae pob artist wedi dehongli *Argraffiadau o*

*Gymru* mewn modd unigryw o safbwynt eu disgyblaeth eu hunain gan adael i syniadau a themâu ddatblygu fydd yn herio ac yn dal rhagdybiaethau ac arsylwadau, sydd yn ei hanfod yn creu argraff o wlad amrywiol a darluniadwy.

Mae'r Oriel ar agor bob dydd o 10.30 am i 5.00 pm ac mae mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth am yr arddangosfa hon, neu unrhyw arddangosfeydd neu ddigwyddiadau eraill cysylltwch â 01248 724444.

**DIWEDD**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Nicola Gibson, Rheolwr Profiad Ymwelwyr
Oriel Ynys Môn
01248 752014
NicolaGibson@ynysmon.gov.uk